**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**97 - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygiad) (Ymadael i â'r UE) 2019**

*Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 5 Chwefror 2019*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Dd/B |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Nid yw’n hysbys |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Dd/B |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 25 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw’n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Dd/B |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Nid yw'n hysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae deddfwriaeth yr UE yn rheoleiddio diogelwch yr holl ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd, a elwir ar y cyd yn ddeunyddiau cyswllt bwyd. Mae hyn yn cynnwys poteli a chynwysyddion plastig, offer cegin, cytleri a llestri.

Amcan y Rheoliadau hyn yw cynnal y cyfreithiau sy'n bodoli eisoes a chywiro elfennau o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir na fydd modd eu gweithredu sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau mewn cysylltiad â bwyd. Mae'r offeryn hwn yn dileu, o ddeddfwriaeth yr UE a

ddargedwir, y tasgau a'r rolau a glustnodir i'r Comisiwn Ewropeaidd, ei bwyllgorau ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop gan na fydd y rhain yn berthnasol mwyach ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 6 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.